


Emynau a Darlleniadau



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

Cymun Bendigaid ar Gân

Chweched Sul y Pasg | Sul y Gweddïau • 10 Mai 2026

Gosodiad

Cymun y Cymry, John Harper

Llywydd

Canon Tracy

Pregethwr

Deon Manon

Salm 66:8-20



Emyn Agoriadol



Cyfodi wnaeth Tywysog hedd,
gorchfygodd uffern fawr a'r bedd,
esgynnodd i'w dragwyddol sedd:
Haleliwia! Haleliwia! Haleliwia!

Agorwyd disglair byrth y nef,
fe glywir gorfoleddus lef
fel sŵn y môr neu daran gref: Haleliwia!

Y fuddugoliaeth fawr a gaed,
daw'r nef a'r ddaear at ei draed,
a chenir mwy drwy rin y gwaed: Haleliwia!

Cymerwn ein telynau'n awr
o gangau'r helyg prudd i lawr,
ymunwn yn yr anthem fawr: Haleliwia!

Esgynnodd Crist i entrych nef,
pob glin a blyg i'w enw ef,
dyrchafwn orfoleddus lef: Haleliwia!

Gogoniant fo, ar uchel gân,
drwy nef a daear heb wahân
i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân: Haleliwia!

Geiriau

Glanmor (John Williams, 1818-1891)

Cerddoriaeth | "Gelobt sei Gott"

Melchior Vulpus (1570-1615);

cyng. Henry George Ley (1887-1962)

Colect

ODduw ein hiachawdwr, gwaredaist ni rhag
galluoedd y tywyllwch a'n dwyn i deyrnas dy
Fab: caniatâ iddo ef a'n galwodd ni'n ôl i fywyd
trwy ei angau, ein cyfodi i lawenydd tragwyddol trwy
ei bresenoldeb parhaus ynom ni; trwy lesu Grist dy
Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda
thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.
Amen.

Y Bendithiwch oll ein Duw, genhedloedd daear las.

R Bendithiwch oll ein Duw,
genhedloedd daear las.

Bendithiwch ein Duw, O bobloedd, a seiniwch
ei fawl yn glywadwy. Ef a roes le i ni ymysg
y byw, ac ni adawodd i'n troed lithro. **R**

Oherwydd buost yn ein profi, O Dduw, ac
yn ein coethi fel arian. Dygaist ni i'r rhwyd,
rhoist rywmau amdanom, gadewaist i ddynion
farchogaeth dros ein pennau, aethom trwy dân
a dyfroedd; ond dygaist ni allan i ryddid. **R**

Dof i'th deml â phoethoffrymau, talaf i ti fy
addunedau, a wneuthum â'm gwefusau ac a lefarodd
fy ngenau pan oedd yn gyfyng arnaf. Aberthaf i ti
basgedigion yn boethoffrymau, a hefyd hyrddod
yn aroglarth; darparaf ychen a bychod geifr. **R**

Dewch i wrando, chwi oll sy'n ofni Duw, ac
adroddaf yr hyn a wnaeth Duw i mi. Gwaeddais
arno â'm genau, ac yr oedd moliant ar fy nhafod. **R**

Pe bawn wedi coleddu drygioni yn fy nghalon,
ni fuasai'r Arglwydd wedi gwrandao; ond yn wir,
gwrandawodd Duw, a rhoes sylw i lef fy ngweddi.
Bendigedig fyddo Duw am na throdd fy ngweddi
oddi wrtho, na'i ffyddlondeb oddi wrthyf. **R**

Cerddoriaeth

Sam Jones

Actau 17:22-31

Safodd Paul yng nghanol yr Areopagus, ac
meddai: "Bobl Athen, yr wyf yn gweld ar bob llaw
eich bod yn dra chrefyddgar. Oherwydd wrth
fynd o gwmpas ac edrych ar eich pethau cysegredig,
cefais yn eu plith allor ac arni'n ysgrifenedig, 'I
Dduw nid adwaenir'. Yr hyn, ynteu, yr ydych chwi'n
ei addoli heb ei adnabod, dyna'r hyn yr wyf fi'n ei
gyhoeddi i chwi. Y Duw a wnaeth y byd a phopeth
sydd ynddo, nid yw ef, ac yntau'n Arglwydd nef a
daear, yn preswyllo mewn temlau o waith llaw. Ni
wasanaethir ef chwaith â dwylo dynol, fel pe bai arno
angen rhywbeth, gan mai ef ei hun sy'n rhoi i bawb
fywyd ac anadl a'r cwbl oll. Gwnaeth ef hefyd o un
dyn yr holl genhedloedd, i breswyllo ar holl wyneb
y ddaear, gan osod cyfnodau penodedig a therfynau
eu preswylfod. Yr oeddent i geisio Duw, yn y gobaith
y gallent rywffod ymbalfalu amdano a'i ddarganfod;
ac eto nid yw ef nepell oddi wrth yr un ohonom.
'Oherwydd ynddo ef yr ydym yn byw ac yn symud
ac yn bod', fel, yn wir, y dywedodd rhai o'ch beirdd
chwi: 'Canys ei hiliogaeth ef hefyd ydym ni.' Os ydym
ni, felly, yn hiliogaeth Duw, ni ddylem dybio fod y

Duwdod yn debyg i aur neu arian neu faen, gwaith nadd celfyddyd a dychymyg dyn. Edrychodd Duw heibio, yn wir, i amserau anwybodaeth; ond yn awr y mae'n gorchymyn i bawb ym mhob man edifarhau, oblegid gosododd ddiwrnod pryd y bydd yn barnu'r byd mewn cyfiawnder, trwy ŵr a benododd, ac fe roes sicrwydd o hyn i bawb trwy ei atgyfodi ef oddi wrth y meirw."

Ioan 14:15-21

Meddai Iesu: "Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd. Ni all y byd ei dderbyn ef, am nad yw'r byd yn ei weld nac yn ei adnabod ef; yr ydych chwi yn ei adnabod, oherwydd gyda chwi y mae'n aros ac ynoch chwi y bydd. Ni adawaf chwi'n amddifad; fe ddoef yn ôl atoch chwi. Ymhen ychydig amser, ni bydd y byd yn fy ngweld i ddim mwy, ond byddwch chwi'n fy ngweld, fy mod yn fyw; a byw fyddwch chwithau hefyd. Yn y dydd hwnnw byddwch chwi'n gwybod fy mod i yn fy Nhad, a'ch bod chwi ynof fi, a minnau ynoch chwithau. Pwy bynnag y mae fy ngorchmynion i ganddo, ac sy'n eu cadw hwy, yw'r un sy'n fy ngharu i. A'r un sy'n fy ngharu i, fe'i cerir gan fy Nhad, a byddaf finnau yn ei garu, ac yn f'amlygu fy hun iddo."

Emyn yr Offrwm



Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
dros holl derfynau'r ddaear lawr
drwy roi tywalltiad nerthol iawn
o'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

Bywha dy waith o fewn ein tir,
arddeliad mawr fo ar y gwir;
mewn nerth y bo'r Efengyl iawn,
er iachawdwriaeth llawer iawn.

Bywha dy waith o fewn dy dŷ
a gwna dy weision oll yn hy:
gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glân,
a'th air o'u mewn fo megis tân.

Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
yn ein calonnau ninnau nawr,
er marwhau pob pechod cas,
a chynnydd i bob nefol ras.

Geiriau

Minimus (John Roberts, 1808-1880)
Cerddoriaeth | "Wareham"
William Knapp (1698-1768)

Emyn Ôl-Gymun



Newyddion braf a ddaeth i'n bro,
hwy haeddent gael eu dwyn ar go'—
Haleliwia! Haleliwia!
Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,
caiff carcharorion fynd yn rhydd.

Haleliwia! Haleliwia!
Haleliwia! Haleliwia! Haleliwia!

Mae Iesu Grist o'n hochor ni,
fe gollodd ef ei waed yn lli;
Haleliwia! Haleliwia!
Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
i'r ochor draw 'mhen gronyn bach.

Wel, f'enaid, bellach cod dy ben,
mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;
Haleliwia! Haleliwia!
Mae'n holl elynion ni yn awr
mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

Geiriau

John Dafydd (1727-c.1771)
Cerddoriaeth | "Lasst uns erfreuen" (Gwynn) (Nashville)
Geistliche Kirchengesäng (1623); addas. David Corner
(c.1585-1648); cyng. Ralph Vaughan Williams (1872-1958)